The Value of Religious Education: perspectives from faith community representatives

The Rev Roy Watson, Christian (Methodist) representative (Blaenau Gwent)

For 30 years I taught RE in schools in Birmingham, Bristol and Cardiff. In each of the schools where I taught there was a substantial group of youngsters from Muslim, Sikh and Hindu backgrounds. In the Cardiff school we even had a few Buddhists. In every case they attended RE lessons. I can remember no case where parents opted to withdraw youngsters from RE lessons. The only youngsters ever to be withdrawn were Jehovah's Witnesses. Obviously the majority of pupils were from nominally Christian backgrounds.

Particularly in the Cardiff Secondary school where I was Head of RE for 20 years, there was the obvious challenge to teach youngsters from different faith backgrounds a respect and tolerance for each others' beliefs. They did not have to accept those beliefs of course but they were taught to respect the right of others to hold a view different to their own. So they were taught as part of the syllabus the major beliefs of Christians, Jews, Muslims, Sikhs, Hindus and Buddhists. In any case, when you teach the major faiths, there are many shared values between these faiths.

Now all this may seem "old hat" and obvious, but in a day and age when so often we come across the strident and extreme views which try to divide and embitter, it becomes more essential for us in schools to promulgate the views of moderation, tolerance and shared values. In schools we can be an effective counterbalance to the extreme voices elsewhere. Our role could be crucial in establishing racial harmony in modern society.

For the last 15 years I have changed my role and have served as a Methodist minister in the area of the Blaenau Gwent Authority. That Authority welcomes clergy in all denominations to take assemblies in its schools and also to take up places on its school governing bodies. Our input now is specifically Christian but nevertheless the need to emphasise that respect and tolerance for each others' views is still paramount and those who propose the views of division and separation are to be sidelined.

I believe the role of the RE teacher in schools is crucial in promoting racial harmony and tolerance!

Abraham Davidson, Jewish representative (Blaenau Gwent SACRE)

The discovery of the meaning of life is one of life's fundamental questions. Religion is one way to unveil some of that meaning. All the great world religions attempt to do this. Hillel was a great Jewish scholar.

Hillel (הלל) (born Babylon traditionally c.110BCE, died 10CE in Jerusalem). So, he was 120 years old.

He is popularly known as the author of three profoundly wise sayings, such as, "If I am not for myself, who will be for me? And when I am (only) for myself, what am 'I'? And if not now, when?"

This is referring to learning and absorption of knowledge.

The explanations are as follows:

1) "If I am not for myself, who will be for me?"

If I do not apply myself and make the effort to learn, no one else can do that for me.

2) “And when I am (only) for myself, what am 'I'?”

If I apply all my efforts for my benefits I am of no use to others.

3) “And if not now, when?"

Don't put off till tomorrow what you can do today.

Dhira Bhakta Dasa, Hindu representative (Bridgend SACRE)

Within the Vedic tradition education is focused on understanding the principles of dharma, the rules and regulations on living our lives set out by Krishna (God) in order to relieve the suffering of living in this material world. The guiding principle is that we come to a full understanding of God and learn how to serve him and how to interact accordingly with each other.

Religious education is central to any civilized society; it is the pillar-stone that has been fundamental in laws that protect and govern, giving a moral guideline that protects from anarchy and disarray. It gives focus and protection when times are troubled and hard. It unites people from many backgrounds and cultures and gives protection to those willing to follow the principles of dharma.

The founding Acharia of ISKCON, His Divine Grace A.C. Bhaktivadanta Swami Prabhupada stated: You can deny the existence of God, but the God conception is there in the human society. Some may accept it, some may not accept it -- that is another thing -- but the conception of God, the whole civilized world, they have got some type of religion. Either you become Christian or Buddhist or Hindu or Muslim, religion means there is some cultivation of knowledge to understand God. And to understand God is the ultimate knowledge.

Here in the UK we have a great history of having religion as part of the educational curriculum; it has shaped many of our great leaders and personalities, and over the years acted as a moral compass by which we can judge not only others but ourselves, whilst also showing us the way to our salvation.

As Ramananda Ryan stated, when asked by Lord Caitanya about education: the best education is that which advances civilization in understanding self in relation to our own personal relationship with God. This is the fundamental of education, one we should keep focus on and never lose, for to lose religious education and understanding self in relation to Krishna (God) means simply to lose civilization.

Moawia Bin-Sufyan, Muslim representative (Vale of Glamorgan SACRE)

My name is Moawia Bin-Sufyan and I am member of the Muslim community. I represent the community on a number of bodies including SACRE, the police authority, and the political and voluntary sector.

Islamic society is founded on the principles of belief and righteous conduct. This connection between values and practice lies at the very heart of the Islamic way of life. To be a Muslim requires that one’s faith be reflected in one’s practice and daily moral conduct with other people. We have the beautiful teachings of the Holy Qur’an and Prophetic Sunnah to guide us to live in accord with the principles and values of our faith.

If we hope to succeed in our goal to raise our children 'Islamically' or religiously, educators and parents must develop a better understanding of how children grow and learn; we must understand the processes of moral development and the methods of effective teaching and learning. Our children will not become moral individuals simply because we want or tell them to do so, but by cultivating their minds and hearts, and by having opportunities to actually see and apply Islamic or religious values in practice.

Schools have a crucial role to play in the preparation of students with the critical thinking and problem-solving skills needed to function successfully in society. Religious Education in particular, can provide concrete situations and programs that will help students to ask real questions of meaning; it can help to foster tolerance and understanding among students. Effective teaching and learning occurs when what they learn in RE is meaningful and worth learning – for then students are motivated to learn. In RE, students learn about the beliefs and practices of others, but it also provides an opportunity for them to search for meaning in their own lives and for those of faith, including Muslims, to re-examine their own beliefs and values.

Neeta Singh Baicher, Sikh representative (Newport SACRE)

My name is Neeta Singh Baicher and I am a British Asian woman from the Sikh community. I wish to share with you some of my beliefs as a Sikh, especially in relation to the importance of teaching Religious Education in our schools and why this knowledge is important later in life.

The literal meaning of the word Sikh is 'disciple'. In that sense as a Sikh we are required to follow a moral code to guide us through life. This is universally essential for individuals and for a community – it is the basis of civilization. All religions include a moral code amongst their other beliefs and dogma. So the inclusion of religion forms a useful and structured way of learning at a very early stage of life, the rights and wrongs that we as a society believe in.

Religion also encourages children at an early age to think of higher ideological and philosophical issues. RE discusses real questions of meaning such as Why was the universe created? Who created the Universe? What happens when we die? It gives another dimension to a child's thought processes. It can also broaden a child's mind. There are many beliefs and religions and other ideas like atheism, which are interesting to compare and think about. The inclusion of RE can encourage a child to question and learn and formulate his/her own set of beliefs and ideas.

In today's society it is important to have an understanding of Religious Education in order to have an appreciation of the viewpoint of others. Pupils are very interested in the subject and it is one of the most discussed subjects on internet forums. So whether one believes in religion or not, an understanding of the beliefs and practices of others and discussion about the divisions and religious problems in our society makes it easier to understand other people's viewpoints and to discuss them with some empathy. Lack of knowledge of other's views is always a stumbling block.

Guru Nanak believed in the virtues of understanding of the world around us and awareness of the disparity of individual beliefs as long as this leads towards parity of gender, social order and equality of all human beings.

Ven Geshe Damcho Yonten, Buddhist statement (Spiritual Director, Lam Rim Buddhist Centre)

All religions have many common practices – morality, ethics, the encouragement of positive actions of body, speech and mind, generosity, compassion, loving-kindness, and devotional practices of prayer and meditation.

The teachings of the Buddha are described as The Middle Way, which does not involve Evangelism or Extremism. Buddhism clearly demonstrates that whatever happens to you, you have to take full responsibility for your own actions and not place the blame on others. A Buddhist's view is to try and acknowledge that all living beings have equal rights, each being dependant on each other, by understanding the law of cause and effect. This can create harmony from both sides.

The entire message of Buddhist practice could be summed up in two succinct statements:

- Help others
- If you cannot help them at least do not harm them.

Everybody responds to kindness. It is very important to teach children about kindness, compassion, friendship, respect for themselves and others, and then they can generate a good heart. This is a joint responsibility of parents, schools and our society. We need to return to caring for each other. Parental practice of loving kindness is very important to a young child's development. In Tibet children are treated as an honoured guest because of our belief in past lives.

Young people need help and encouragement to get in touch with their own sacred space. There is too much noise, TV, computer games, many of which portray anger, sex and violence, not enough quietness, harmony, sharing time with each other and experiencing the benefits of spiritual practice.

Buddha's teachings are very practical to apply to one's own life situations. You are encouraged to examine and test these teachings, to check whether they are valid in your own experience of the way things are, if so, then Buddha recommends you practice them. If not, then forget them.

The meaning of the purposes of religious practice needs to be clear to understand if that is so, then change will naturally happen to meet our modern day needs.

These are degenerate times and people's minds have altered because of technological advances, so much information and so many distractions. When disasters happen like the Asia Tsunami, then suddenly people's minds become frightened and then they remember and turn to spiritual practice. Spiritual paths are essential to help us survive in peace.

We must develop a sense of global responsibility for each other and our environment to help us attempt to solve our problems in a balanced way that takes into account the different aspects of our changing societies, cultures and faiths.

This is the value of Religious Education.

Thank you.

Sue Cave, Bahá'í representative (Monmouthshire SACRE)

From a Bahá'í perspective the foundation of the Bahá'í principle of spiritual education rests on the recognition that every human being is endowed with a spiritual nature, the divine perfections. Yet every human being also has a material nature, the human imperfections.

“Noble have I created thee,” wrote Bahá’u’lláh, Founder of the Bahá'í Faith, “yet thou hast abased thyself. Rise then unto that for which thou was created.”

The aim of spiritual education is therefore to release the limitless potentialities, those divine virtues and perfections that lie hidden in each person. The application of such qualities as trustworthiness, courage, truthfulness and humility and the binding of the heart to the love of God will help to develop a strong, sincere and moral character dedicated to service to the world of humanity.

Bahá’u’lláh wrote: “Regard man as a mine rich in gems of inestimable value. Education can, alone cause it to reveal its treasures, and enable mankind to benefit therefrom.”

As each child is potentially the light of the world and its darkness, the question of education, especially spiritual education, must be accounted as of primary importance.

‘Abdu’l-Bahá wrote: “The education and training of children is among the most meritorious acts of humankind and draweth down the grace and favour of the All-Merciful...”

“ Strive thou with heart and soul; see to it that the children are raised up to embody the highest perfections of humankind, to such a degree that every one of them will be trained in the use of the mind, in acquiring knowledge, in humility and lowliness, in dignity and ardour.”

That is the value of Religious Education.

Gwerth Addysg Grefyddol: safbwyntiau cynrychiolwyr cymunedau ffydd

Y Parch. Roy Watson, cynrychiolydd Cristnogol (Methodistaidd) (Blaenau Gwent)

Am 30 mlynedd fe addysgais AG mewn ysgolion yn Birmingham, Bryste a Chaerdydd. Ym mhob un o'r ysgolion y bûm yn athro ynddynt, yr oedd grŵp sylweddol o bobl ifanc o gefndiroedd Mwslimaidd, Sikhaidd a Hindŵaidd. Yn yr ysgol yng Nghaerdydd roedd gennym ychydig o Fwdhyddion, hyd yn oed. Ym mhob achos, roeddynt yn mynychu gwersi AG. Nid wy'n gallu cofio unrhyw achos lle dewisodd rhieni dynnu pobl ifanc yn ôl o wersi AG. Yr unig bobl ifanc a gafodd eu tynnu'n ôl erioed oedd Tystion Jehofa. Wrth reswm roedd y rhan fwyaf o'r disgyblion o gefndiroedd Cristnogol mewn enw.

Yn yr ysgol uwchradd yng Nghaerdydd, yn enwedig, lle bûm yn Bennaeth AG am 20 mlynedd, roedd yna her amlwg i addysgu pobl ifanc o wahanol gefndiroedd ffydd i barchu eu credoau ei gilydd a bod yn oddefgar ohonynt. Doedd dim rhaid iddyn nhw dderbyn y credoau hynny, wrth gwrs, ond cawsant eu haddysgu i barchu hawl pobl eraill i arddel safbwynt gwahanol i'w safbwynt hwy. Felly, cawsant eu haddysgu, fel rhan o'r maes llafur, am brif gredoau Cristnogion, Iddewon, Mwslimiaid, Sikhiaid, Hindŵiaid a Bwdhyddion. Sut bynnag, pan fyddwch yn addysgu'r prif grefyddau, mae yna lawer o werthoedd y maent yn eu rhannu.

Efallai y bydd hyn yn ymddangos yn hen ffasiwn ac yn amlwg, ond mewn oes pan fyddwn mor aml yn dod ar draws y safbwyntiau croch ac eithafol sy'n ceisio ein gwahanu a'n chwerwi, mae'n dod yn fwy hanfodol i ni yn yr ysgolion ledaenu safbwyntiau cymedroldeb, goddefgarwch a gwerthoedd a rennir. Mewn ysgolion gallwn fod yn wrthbwysiad effeithiol i'r lleisiau eithafol a geir mewn mannau eraill. Gallai ein rôl fod yn hollbwysig o ran sefydlu cytgord hiliol yn y gymdeithas fodern.

Dros y 15 mlynedd diwethaf rwyf wedi newid fy rôl, ac wedi gwasanaethau fel gweinidog Methodistaidd yn ardal Awdurdod Blaenau Gwent. Mae'r Awdurdod hwnnw'n croesawu clerigwyr o bob enwad i arwain gwasanaethau boreol yn ei ysgolion, ac i lenwi seddau ar gyrff llywodraethol ysgolion. Mae ein mewnbwn yn awr yn un penodol Gristnogol; er hynny, mae'r angen i bwysleisio'r parch a'r goddefgarwch hwnnw tuag at safbwyntiau pobl eraill yn parhau'n brif ystyriaeth, ac mae pobl sy'n cynnig safbwyntiau rhaniad a gwahaniad i gael eu bwrw i'r cyrion.

Rwy'n credu bod rôl yr athro AG mewn ysgolion yn hollbwysig o ran hybu cytgord hiliol a goddefgarwch!

Abraham Davidson, cynrychiolydd Iddewig (CYSAG Blaenau Gwent)

Canfod ystyr bywyd yw un o gwestiynau sylfaenol bywyd. Mae crefydd yn un ffordd o ddatguddio rhywfaint o'r ystyr hwnnw. Mae holl grefyddau mawr y byd yn ceisio gwneud hyn. Roedd Hillel yn ysgolhaig Iddewig mawr.

Yn ôl traddodiad, cafodd Hillel (nolibaM my ine ie (הלל oddeutu 110CC, a bu farw yn Jereusalem yn 10OC). Felly, yr oedd yn 120 mlwydd oed.

Mae'n adnabyddus fel awdur tri dywediad tra doeth, sef "Os nad wyf o'm plaid fy hun, pwy fydd o'm plaid? A phan fwyf o'm plaid fy hun (yn unig), pwy wyf 'i'? Ac os nad yn awr, pa bryd?"

Mae hyn yn cyfeirio at ddysgu ac amgyffred gwybodaeth.

Mae'r esboniadau fel a ganlyn:

1) “Os nad wyf o'm plaid fy hun, pwy fydd o'm plaid?”

Os na fyddaf yn dygnu arni ac yn gwneud yr ymdrech i ddysgu, ni all neb arall wneud hynny drosof.

2) “A phan fwyf o'm plaid fy hun (yn unig), pwy wyf 'i'?”

Os byddaf yn gwneud fy holl ymdrechion er fy mudd fy hun yn unig, nid wyf o unrhyw ddefnydd i eraill.

3) “Ac os nad yn awr, pa bryd?”

Peidiwch â gohirio tan yfory'r hyn y gallwch ei wneud heddiw.

Dhira Bhakta Dasa, cynrychiolydd Hindŵaidd (CYSAG Pen-y-bont ar Ogwr)

Yn y traddodiad Fedig, mae addysg yn canolbwyntio ar ddeall egwyddorion dharma, y rheolau a'r rheoliadau ynglŷn â byw ein bywydau sydd wedi eu traethu gan Crishna (Duw) er mwyn lliniaru'r dioddefaint o fyw yn y byd materol hwn. Yr egwyddor arweiniol yw ein bod yn dod i ddealltwriaeth lawn o Dduw, ac yn dysgu sut i'w wasanaethu a sut i ryngweithio â'n gilydd yn unol â hynny.

Mae addysg grefyddol yn ganolog i unrhyw gymdeithas war; dyma'r piler sylfaenol mewn cyfreithiau sy'n amddiffyn ac yn rheoli, gan roi canllaw moesol sy'n diogelu rhag anarchiaeth ac anhrefn. Mae'n rhoi eglurdeb a nodded pan fydd yr amserau'n gythryblus ac yn anodd. Mae'n uno pobl o sawl cefndir a diwylliant, ac yn rhoi nodded i rai sy'n fodlon dilyn egwyddorion dharma.

Meddai Acharia sefydlol ISKCON, Ei Ras Dwyfol A.C. Bhaktivadanta Swami Prabhupada: Gallwch wadu bodolaeth Duw, ond mae'r syniad o Dduw yn bresennol yn y gymdeithas ddynol. Efallai bod rhai'n ei dderbyn, a rhai ddim yn ei dderbyn — peth arall yw hynny — ond y syniad o Dduw, y byd gwaraidd cyfan, mae ganddynt grefydd o ryw fath. Byddwch yn dod naill ai'n Gristion neu'n Fwdhydd neu'n Hindŵ neu'n Fwslim; ystyr crefydd yw bod yna ryw fath o feithrin gwybodaeth er mwyn deall Duw. A dealltwriaeth o Dduw yw'r wybodaeth fwyaf.

Yma yn y DU mae gennym hanes gwych o gynnwys crefydd fel rhan o'r cwricwlwm addysgol; mae hi wedi ffurfio llawer o'n harweinwyr mawr a'n personoliaethau mawr, a thros y blynyddoedd mae wedi gweithredu fel cwmpawd moesol sy'n ein galluogi i fesur nid yn unig pobl eraill ond hefyd ni ein hunain, tra'n dangos y ffordd hefyd tua'n hiachawdwriaeth.

Fel y dywedodd Ramananda Ryan, pan holwyd ef gan yr Arglwydd Caitanya ynglŷn ag addysg: yr addysg orau yw'r un sy'n symud gwareiddiad ymlaen o ran dealltwriaeth ohono'i hun yng nghyswllt ein perthynas bersonol ein hunain â Duw. Dyma hanfod addysg, un y dylem ganolbwyntio arno ac na ddylem byth ei golli, oherwydd mae colli addysg a'r ddealltwriaeth o'r hunan mewn perthynas â Chrishna (Duw) yn golygu colli gwareiddiad.

Moawia Bin-Sufyan, cynrychiolydd Mwslimaidd (CYSAG Bro Morgannwg)

Fy enw yw Moawia Bin-Sufyan ac rwy'n aelod o'r gymuned Fwslimaidd. Rwy'n cynrychioli'r gymuned ar nifer o gyrff, gan gynnwys CYSAG, awdurdod yr heddlu, y sector gwleidyddol a'r sector gwirfoddol.

Mae'r gymdeithas Islamaidd wedi ei sylfaenu ar egwyddorion credo ac ymddygiad cyfiawn. Mae'r cysylltiad hwn rhwng gwerthoedd ac ymarferiad wrth graidd y ffordd Islamaidd o fyw. Mae bod yn Fwslim yn gofyn bod eich ffydd yn cael ei hadlewyrchu yn eich ymarferiad a'ch ymddygiad moesol beunyddiol gyda phobl eraill. Mae gennym athrawiaethau prydferth y Cwrân Sanctaidd i'n harwain i fyw yn unol ag egwyddorion a gwerthoedd ein ffydd.

Os ydym yn gobeithio llwyddo i gyflawni ein nod o fagu ein plant mewn dull 'Islamaidd' neu grefyddol, rhaid i addysgwyr a rhieni ddatblygu gwell dealltwriaeth o sut mae plant yn tyfu ac yn dysgu; rhaid i ni ddeall prosesau datblygiad moesol a dulliau addysgu a dysgu effeithiol. Ni fydd ein plant yn dod yn unigolion moesol oherwydd ein bod ni'n dymuno iddynt neu'n dweud wrthynt wneud hynny, ond trwy ddiwyllio'u meddyliau a'u calonnau, a thrwy gael cyfleoedd i weld a chymhwyso gwerthoedd Islamaidd neu grefyddol yn ymarferol.

Mae gan ysgolion rôl hollbwysig i'w chwarae yn y gwaith o gynysgaeddu myfyrwyr â'r sgiliau meddwl beirniadol a datrys problemau y mae arnynt eu hangen er mwyn gweithredu'n llwyddiannus mewn cymdeithas. Gall Addysg Grefyddol, yn neilltuol, ddarparu sefyllfaoedd diriaethol a rhaglenni a fydd yn cynorthwyo myfyrwyr i ofyn cwestiynau real ynglŷn ag ystyr; gall helpu meithrin goddefgarwch a dealltwriaeth ymysg myfyrwyr. Mae addysgu a dysgu effeithiol yn digwydd pan fydd yr hyn y maent yn ei ddysgu mewn AG yn ystyrlon ac yn werth ei ddysgu — oherwydd wedyn mae myfyrwyr yn cael eu hysgogi i ddysgu. Mewn AG, mae myfyrwyr yn dysgu am gredoau ac arferiadau pobl eraill, ond mae hefyd yn darparu cyfle iddynt chwilio am ystyr yn eu bywydau eu hunain, ac i rai sydd â ffydd, gan gynnwys Mwslimiaid, ailarchwilio eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain.

Neeta Singh Baicher, cynrychiolydd Sikhaidd (CYSAG Casnewydd)

Fy enw yw Neeta Singh Baicher ac rwy'n ferch Asiaidd Brydeinig o'r gymuned Sikhaidd. Hoffwn rannu gyda chi rai o'm credoau fel Sikh, yn enwedig mewn perthynas â phwysigrwydd addysgu Addysg Grefyddol yn ein hysgolion a pham y mae'r wybodaeth hon yn bwysig yn nes ymlaen mewn bywyd.

Ystyr llythrennol y gair 'Sikh' yw 'disgybl'. Yn yr ystyr hwnnw mae gofyn i ni, fel Sikhiaid, ddilyn cod moesol sy'n ein harwain trwy fywyd. Mae hyn yn gyffredinol hanfodol i unigolion ac i gymuned — dyma sail gwareiddiad. Mae pob crefydd yn cynnwys cod moesol ymysg ei chredoau a'i dogmâu eraill. Felly mae cynnwys crefydd yn ddull defnyddiol a strwythuredig o ddysgu, yn gynnar iawn mewn bywyd, y syniadau am dda a drwg yr ydym ni fel cymdeithas yn credu ynddynt.

Mae crefydd hefyd yn annog plant ifanc i feddwl am faterion ideolegol ac athronyddol uwch. Mae AG yn trafod cwestiynau real ynglŷn ag ystyr, megis Pam y cafodd y bydysawd ei greu? Pwy a greodd y bydysawd? Beth sy'n digwydd pan fyddwn yn marw? Mae'n rhoi dimensiwn arall i brosesau meddwl plentyn. Gall hefyd ehangu meddwl plentyn. Mae yna lawer o gredoau a chrefyddau, a syniadau eraill megis anffyddiaeth, sydd yn ddiddorol i'w cymharu ac i feddwl amdanynt. Gall cynnwys AG symbylu plentyn i gwestiynu a dysgu, a llunio ei set ei hun o gredoau a syniadau.

Mewn cymdeithas heddiw mae'n bwysig meddu ar ddealltwriaeth o Addysg Grefyddol er mwyn gallu gwerthfawrogi safbwynt pobl eraill. Mae gan ddisgyblion ddiddordeb mawr yn y pwnc, ac mae'n un o'r pynciau a drafodir fwyaf mewn fforymau rhyngrwyd. Felly, p'un ai a yw rhywun yn grediniwr mewn crefydd ai peidio, mae dealltwriaeth o gredoau ac arferiadau pobl eraill, a thrafodaeth ynglŷn â'r rhaniadau a'r problemau crefyddol yn ein cymdeithas, yn ei gwneud yn haws deall safbwynt pobl eraill a chynnal trafodaeth â hwy gyda rhywfaint o empathi. Mae diffyg gwybodaeth am safbwyntiau pobl eraill wastad yn faen tramgwydd.

Credai Guru Nanak yn rhinweddau dealltwriaeth o'r byd o'n cwmpas ac ymwybyddiaeth o'r gwahaniaeth rhwng credoau unigol, cyn belled â bod hyn yn arwain at gydraddoldeb rhyw, trefn gymdeithasol, a chydraddoldeb bodau dynol.

Ven Geshe Damcho Yonten, Bwdhydd (Cyfarwyddwr Ysbrydol, Canolfan Fwdhaidd Lam Rim)

Mae gan yr holl grefyddau arferiadau sy'n gyffredin iddynt — moesoldeb, moeseg, anogaeth i weithredoedd cadarnhaol mewn corff, lleferydd a meddwl, haelioni, tosturi, tynerwch, ac arferiadau defosiynol o weddïo a myfyrio.

Disgrifir athrawiaethau'r Bwdha fel Y Ffordd Ganol, nad yw'n golygu Efengylu nac Eithafiaeth. Mae Bwdhaeth yn dangos yn glir fod yn rhaid i chi ysgwyddo cyfrifoldeb llawn am eich gweithredoedd eich hun, beth bynnag fydd yn digwydd i chi, a pheidio â rhoi'r bai ar eraill. Safbwynt Bwdhydd yw ceisio cydnabod bod hawliau cyfartal gan fodau byw oll, gan fod pawb yn ddibynnol er ei gilydd, drwy ddeall y ddeddf achos ac effaith. Gall hyn greu cytgord o'r ddwy ochr.

Gellid crynhoi neges gyfan ymarferiad Bwdhaidd mewn dau osodiad byr:
- Helpwch bobl eraill
- Os na allwch eu helpu, o leiaf peidiwch â'u niweidio.

Mae pawb yn ymateb i garedigrwydd. Mae'n bwysig iawn addysgu plant am garedigrwydd, tosturi, cyfeillgarwch, a pharch tuag atynt eu hunain ac at eraill, ac yna gallant greu calon dda. Mae hyn yn gyfrifoldeb ar y cyd gan rieni, ysgolion a'n cymdeithas. Mae arnom angen dychwelyd at ofalu am ein gilydd. Mae'r arfer o dynerwch mewn rhieni'n bwysig iawn i ddatblygiad plentyn ifanc. Yn Nhibet, mae plant yn cael eu trin fel gwesteion anrhydeddus, oherwydd ein cred ein bod wedi byw bywydau blaenorol.

Mae ar bobl ifanc angen cymorth ac anogaeth i ymgysylltu â'u lle cysegredig eu hunain. Mae gormod o sŵn: y teledu, gêmau cyfrifiadur — llawer ohonynt yn portreadu dicter, rhyw a thrais — a dim digon o ddistawrwydd, cytgord, rhannu amser gyda'i gilydd, a phrofi buddion ymarferiad ysbrydol.

Mae athrawiaethau'r Bwdha'n rhai ymarferol iawn i'w cymhwyso i'n sefyllfaoedd bywyd ein hunain. Fe gewch eich annog i edrych a rhoi prawf ar yr athrawiaethau hyn, er mwyn gweld a ydynt yn ddilys yn eich profiad eich hun o natur pethau; os felly, mae'r Bwdha'n argymell eich bod yn eu hymarfer. Os nad ydynt yn ddilys, yna anghofiwch hwy.

Mae angen i ystyr dibenion ymarferiad crefyddol fod yn glir er mwyn deall a yw hynny'n wir; yna bydd newid yn digwydd yn naturiol er mwyn diwallu ein hanghenion cyfoes.

Mae'r amserau presennol yn rhai dirywiedig, ac mae meddyliau pobl wedi newid oherwydd datblygiadau technolegol, ac oherwydd bod cymaint o wybodaeth a chymaint o wrthdyniadau i'w cael. Pan fydd trychinebau megis y Tswnami yn Asia yn digwydd, daw meddyliau pobl yn ofnus yn sydyn, ac yna byddant yn cofio ac yn troi at ymarferiad ysbrydol. Mae llwybrau ysbrydol yn hanfodol er mwyn ein helpu i oroesi mewn heddwch.

Rhaid i ni ddatblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb byd-eang amdanom ein gilydd ac am ein hamgylchedd, er mwyn ein helpu i ddatrys ein problemau mewn modd cytbwys sy'n cymryd i ystyriaeth y gwahanol agweddau ar ein cymdeithasau, diwylliannau a ffydd newidiol.

Dyma werth Addysg Grefyddol.

Diolch.

Sue Cave, cynrychiolydd y Bahá'í (CYSAG Sir Fynwy)

O safbwynt Bahá'í, mae sylfaen yr egwyddor Bahá'í o addysg ysbrydol i'w chael yn y gydnabyddiaeth fod pob bod dynol wedi ei gynysgaeddu â natur ysbrydol, y perffeithderau dwyfol. Eto, mae gan bob bod dynol natur faterol hefyd, yr amherffeithderau dynol.

“Fe’th greais yn urddasol,” ysgrifennodd Bahá’u’lláh, Sylfaenydd Ffydd y Bahá'í, “ac eto darostyngaist dy hun. Cyfoda felly at yr hyn y’th grëwyd ar ei gyfer.”

Nod addysg ysbrydol, felly, yw rhyddhau'r grymoedd cudd di-ben-draw, y rhinweddau a’r perffeithderau dwyfol hynny sy'n gorwedd yn gudd ym mhob unigolyn. Mae cymhwysiad priodweddau megis dibynadwyedd, dewrder, geirwiredd a gostyngeiddrwydd, a rhwymiad y galon wrth gariad Duw, yn helpu i ddatblygu cymeriad cryf, diffuant a moesol sydd wedi ymgysegru i wasanaethu byd y ddynoliaeth.

Ysgrifennodd Bahá’u’lláh: “Ystyriwch ddyn yn fwynfa sydd â chyfoeth o emau o werth amhrisiadwy ynddi. Dim ond addysg all achosi iddi ddatgelu ei thrysorau, a galluogi'r ddynoliaeth i gael budd ohonynt.”

Yn yr un modd ag y mae pob plentyn yn oleuni ac yn dywyllwch y byd, rhaid cyfrif cwestiwn addysg, yn enwedig addysg ysbrydol, yn un sydd o'r pwys mwyaf.

Ysgrifennodd Abdu’l-Bahá: “Mae addysg a hyfforddiant plant ymysg gweithredoedd mwyaf clodwiw'r ddynoliaeth, ac mae'n atynnu gras a chymwynas yr Holl-Drugarog...”

“Boed iti ymdrechu â'th holl galon a'th enaid; gofala fod plant yn cael eu magu i gorffori perffeithderau uchaf y ddynolryw, i'r fath raddau fel y bydd pob un ohonynt yn cael ei hyfforddi yn y defnydd o'r meddwl, mewn caffael gwybodaeth, mewn gostyngeiddrwydd, mewn urddas ac mewn sêl.”

Dyna werth Addysg Grefyddol.